**LGH-06-02(cof)**

# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 20 Mawrth 2002 |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 5.05pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| Peter Black (Dirprwy Weinidog) | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gyr |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| John Bader | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Brendon Hilbourne | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Tamlyn Rabey | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Paul Webb | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Frank Cuthbert | Moderneiddio Llywodraeth Leol |
| Ian Fox | Rheolwr Rhanbarthol Cymru, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru a Lloegr |
| Carol Moore | Prif Swydog, Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru |
| Linda Summers | Cyfarwyddwr Rhanbarthol, Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol |
| Bob Chapman | Ymgynghorydd Cynllunio a Phartneriaeth, Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol |
| Nigel Horrocks | NIACE Dysgu Cymru |
| Howard John | Cyfarwyddwr, Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru |
| Vince Millband | Cydlynydd Cynlluniau Cymunedol, Grp Tai Gwalia |
| Joy Garfitt | Rheolwr Datblygu Cymunedol, Cymdeithas Tai Merthyr Tudful |
| Roger Bonehill | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| *Ysgrifenyddiaeth:* | |
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau rhagarweiniol**

Dywedodd y Cadeirydd fod yr ymweliadau â Gogledd Cymru a De Orllewin Cymru i gynorthwyo'r adolygiad polisi i adfywio cymunedol wedi bod yn gynhyrchiol ac wedi cynnig llawer o wybodaeth. Byddai'r Athro Dave Adamson, a oedd wedi anfon ymddiheuriad am ei absenoldeb, yn darparu adroddiad ysgrifenedig ar y materion a godwyd yn ystod yr ymweliadau. Câi hwn ei gylchredeg cyn gynted ag y byddai ar gael.

Roedd y Cadeirydd wedi derbyn llythyr oddi wrth y Dirprwy Lywydd yn ei hysbysu y byddai newidiadau i amserlen y Pwyllgorau yn dod i rym yn nhymor yr Hydref. Roedd yr Aelodau i gyd

wedi derbyn copi o'r llythyr ac roeddynt yn fodlon â'r cynnig hwn.

Yn dilyn llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, cytunodd yr Aelodau y dylid cynnal cyfarfod ar y cyd ddydd Mercher 1 Mai rhwng y Pwyllgor a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod gofal cartref.

Croesawodd y Cadeirydd Pauline Jarman i'r cyfarfod cyn iddi gael ei hethol yn ffurfiol yn Aelod o'r Pwyllgor. Byddai Pauline Jarman yn cymryd lle Janet Davies, a fyddai'n symud i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth. Diolchodd y Cadeirydd i Janet Davies am y cyfraniad gwerthfawr yr oedd wedi ei wneud i'r Pwyllgor yn ystod ei haelodaeth.

Cyhoeddodd y Cadeirydd mai hwn fyddai cyfarfod olaf Dirprwy Glerc y Pwyllgor Liz Wilkinson a oedd yn trosglwyddo i ymgymryd â chyfrifoldebau cyffelyb gyda'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Materion Gwledig. Croesawodd y swyddog a fyddai'n cymryd lle Liz, Claire Griffiths. Diolchodd y Pwyllgor i Liz am ei holl waith caled yn y gorffennol, a oedd wedi ei werthfawrogi'n fawr, a dymunodd bob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyon**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Janet Ryder a Janet Davies. Roedd Jocelyn Davies a Pauline Jarman yn dirprwyo drostynt.

**Eitem 2: Datgan buddiannau**

2.1 Gwnaed y datganiadau isod:

Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;

Dywedodd William Graham ei fod yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd;

Dywedodd Pauline Jarman ei bod yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac yn aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;

Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog**

3.1 Dywedodd y Gweinidog y byddai'r swyddogion yn ysgrifennu at brif gymdeithasau cynghorau tref a chymuned Cymru yn eu hysbysu y byddai angen iddynt ystyried eu sefyllfa o safbwynt cyflwyno'r cod ymddygiad. Dylent godi unrhyw bryderon gyda'r sawl sy'n rhoi cyngor cyfreithiol iddynt neu drwy ymgynghori â Swyddog Monitro eu cyngor sir.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar y nifer o gynghorwyr a oedd wedi eu gwahardd am

nad oeddynt wedi llofnodi'r cod ymddygiad.

3.3 Cytunodd y Gweinidog y byddai'r swyddogion yn darparu cyngor i gynghorau cymuned ar y cod ymddygiad enghreifftiol i Aelodau ac y byddai'n hysbysu'r Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer hynny.

3.4 Cytunodd y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law ar gynigion i dywys yr adroddiad ‘Hidden in Plain Sight: Homelessness among Lesbian and Gay Youth’ yn ei flaen, ar ôl i'r Dirprwy Weinidog ystyried ei oblygiadau i Gymru.

3.5 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar Gylch Ceisiadau 2002-03 yr Awdurdodau Lleol am Arian ac Eithrio Arian Cyfatebol o'r Gronfa Adfywio Leol, gan gynnwys manylion y dyraniad o £9.267 miliwn a oedd eisoes wedi ei rwymo ac ansawdd y ceisiadau a ddaeth i law.

3.6 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar Gylch Ceisiadau'r Sector Gymunedol a Gwirfoddol am Arian o'r Gronfa Adfywio Leol. Croesawai'r Pwyllgor y ddarpariaeth gyllido a fyddai o fudd i gymunedau difreintiedig mewn ardaloedd nad ydynt yn gymwys i gael Cyllid Strwythurol oddi wrth yr UE.

3.7 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o fanylion am y Swyddfeydd Post sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Cyfalaf Cychwyn ac i gynnwys manylion am weithrediad y cynllun a'r camau a gymerwyd i roi cyhoeddusrwydd iddo.

3.8 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar yr Ardal Blismona Beilot Flaenoriaethol i Gymru, a oedd wedi deillio o'r Papur Gwyn ar ddiwygio'r heddlu. Roedd Gorllewin y Rhyl yng Ngogledd Cymru wedi ei ddewis fel un o bum ardal yn y DU i gymryd rhan yn y prosiect peilot.

3.9 Roedd y Gweinidog wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yngln â datblygu fframwaith polisi ar chwarae plant a gweithredu argymhellion adroddiad Waterhouse. Cytunai'r Aelodau ei bod yn bwysig i'r Pwyllgor drafod goblygiadau rhoi argymhellion adroddiad Waterhouse ac adroddiad Carlisle ar waith, yn enwedig y goblygiadau ariannol. Roedd y Gweinidog yn ymwybodol o'r angen i roi sylw i'r argymhellion yn adroddiad Carlisle ac i gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar yr adeg briodol.

**Eitem 4: Trefniadau Adnewyddu'r Sector Preifat – Ystyried y Gorchymyn Diwygio Rheoliadol: LGH-06-02 (p.1)**

4.1 Dywedodd y Gweinidog y bu ymgynghori eang yngln â'r newidiadau arfaethedig i'r trefniadau adnewyddu yn y sector preifat ac iddynt gael cefnogaeth gadarnhaol iawn. Roedd y system grantiau adnewyddu bresennol yn hynod gyfarwyddol ac roedd wedi cyfyngu'n gynyddol ar y gallu oedd gan awdurdodau lleol i ddatblygu atebion strategol er mwyn mynd i'r afael â materion tai lleol mewn ffordd gynhwysfawr. Yn lle'r ystod bresennol o grantiau, byddai'r trefniadau newydd yn sefydlu per newydd cyffredinol ac eang a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i roi cymorth i wella

amodau byw yn eu hardal.

4.2 Roedd y trefniadau newydd yn cael eu cyflwyno gan ddefnyddio Gorchymyn Diwygio Rheoliadol. Roedd y Senedd yn craffu ar y trefniadau ar hyn o bryd a byddent yn cael eu trafod yn y cyfarfod llawn ar 16 Ebrill 2002.

4.3 Byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno canllawiau manwl ar bolisïau adnewyddu tai i awdurdodau lleol yn ystod yr haf. Roedd y canllawiau, a gâi eu datblygu mewn ymgynghoriad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi eu bwriadu i fod o gymorth i awdurdodau lleol i ddatblygu eu polisïau a byddent yn nodi'r prif egwyddorion yng nghyd-destun adnewyddu tai.

4.4 Croesawai'r Pwyllgor y trefniadau newydd a'r cynnydd mewn hyblygrwydd i awdurdodau lleol i ddatblygu atebion strategol i faterion tai er mwyn ymdrin â phwysau a blaenoriaethau lleol.

4.5 Cytunai'r Aelodau fod y trefniadau newydd yn arf effeithiol i gynorthwyo awdurdodau lleol i fynd i'r afael â thai sydd wedi eu hesgeuluso ac amodau gwael yn y sector tai preifat, pethau sy'n aml yn deillio o oed y tai. Byddai'n rhaid parhau i ddatblygu mesurau eraill megis trwyddedu Tai Aml-ddeiliadaeth er mwyn gwella amodau ymhellach, yn enwedig o fewn y sector rhentu preifat.

4.6 Cadarnhawyd y byddai yna gyfnod pontio o 12 mis a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i ddatblygu eu polisïau newydd. Yn ystod y cyfnod hwnnw byddai'r system grantiau bresennol yn dal i barhau.

**Eitem 5: Adolygu Cynlluniau Foyer – Ystyried adroddiad y Dirprwy Weinidog: LGH-06-02 (p.2)**

5.1 Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod yr adolygiad wedi ei fwriadu fel ymarferiad cyfyngedig, o fewn amserlen fer, a fyddai'n cymryd cipolwg cyflym ar y ddarpariaeth bresennol ac ar argraffiadau pobl o'r cynlluniau Foyer. Diben yr adolygiad oedd cyfrannu at ymateb polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i waith datblygu a rheoli cynlluniau Foyer.

5.2 Roedd cysyniad gwreiddiol y cynllun Foyer yn rhagweld grp o gleientiaid ag anghenion cymorth cyfyngedig ond nad oedd yr anghenion hynny wedi eu diwallu a rhagdybiwyd y byddai'r galw, yn ymarferol, yn dod o du unigolion a rannai'r un nodweddion â defnyddwyr Tai â Chymorth. Roedd lefel uchel yr anghenion cymorth ymysg tenantiaid yn peri problemau rheoli o fewn prosiectau.

5.3 Argymhellai'r adroddiad y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i gefnogi model cyfannol o lety, cymorth a gwasanaethau dysgu a gwaith sy'n cyplysu â'i gilydd. Dylid rhoi'r gefnogaeth hon i wasanaethau ar gyfer pobl ifanc a dylid cynnwys grwpiau eraill sy'n agored i niwed. Yn y cyd-destun hwn, byddai'n bwysig hyrwyddo model Foyer sy'n dod o fewn y continwwm llety â chymorth a gwasanaethau dysgu a gwaith.

5.4 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor yr adroddiad a'i argymhellion. Yn arbennig, roedd yna gefnogaeth i hyrwyddo model gwasgarog o lety â chymorth a gwasanaethau dysgu a gwaith ar gyfer pobl ifanc, ac na ddylai'r unedau fod yn fwy na 12 gwely o ran maint. Teimlid y byddai darparu unedau llai yn help i atal y problemau o fod â llefydd gwag, byddai'n golygu bod modd ymdrin â'r unedau i gyd yn yr un ffordd a byddai modd canfod yr arferion gorau.
- Roedd yr Aelodau'n bryderus nad oedd y cynlluniau Foyer wedi cael eu datblygu yng nghyd-destun y mecanweithiau cynllunio strategol presennol. Cytunwyd y dylid cefnogi cynlluniau Foyer lle'r oedd angen pendant wedi ei nodi ac o fewn cyd-destun strategaeth dai awdurdodau lleol.
- Byddai'n rhaid sicrhau bod llety â chymorth ar gael ledled Cymru, gan gynnwys yr ardaloedd gwledig. Teimlid na ddylai fod rhaid i unigolion y mae angen cymorth arnynt symud o'u cymunedau lleol er mwyn gallu manteisio ar ddarpariaeth addas.
- Codwyd pryder yngln â'r problemau o gyrchu at gyllid i gwrdd â chostau agweddau dysgu a gwaith y gwasanaeth. Nodwyd na ellid defnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol a'r Grant Refeniw i Dai â Chymorth i gwrdd â chostau cyfalaf na refeniw y cyfleusterau hyfforddi. Roedd costau refeniw gwasanaethau dysgu a gwaith yn cael eu talu ar hyn o bryd o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys Cyllid Ewropeaidd a mudiadau elusennol. Byddai'n rhaid datblygu ffrydiau cyllido addas i gwrdd â chostau agweddau dysgu a gwaith cynlluniau Foyer. Roedd ELWa yn cynnal prosiect peilot, a fyddai'n mapio anghenion y grp cleientiaid hwn a'r ddarpariaeth ar ei gyfer a byddai'n talu costau darparu gweithiwr hyfforddi pwrpasol a fyddai'n gweithio mewn dau gynllun Foyer.
- Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod llawer o Gynlluniau Tai â Chymorth wedi cynyddu'r lefelau rhent yn sylweddol, gan ddefnyddio'r Budd-dâl Tai Pontio i dalu costau'r anghenion cymorth. Fodd bynnag, byddai hyn yn effeithio ar y rheini sy'n cymryd rhan mewn prosiectau a fwriadwyd yn benodol i annog unigolion i mewn i waith cyflogedig, gan fod perygl i'r lefelau rhent fynd y tu hwnt cyrraedd. Byddid yn ymdrin â chyllido costau cymorth yn y rhagymadrodd i Cynorthwyo Pobl yn Ebrill 2003.
- Ar fater rheoleiddio cynlluniau Foyer, eglurodd y Dirprwy Weinidog fod cynlluniau Foyer yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynlluniau eraill Tai â Chymorth. Cyfarwyddiaeth Dai Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am y trefniadau rheoleiddio hyn.
- Cefnogodd y Pwyllgor yr argymhelliad y dylai'r adroddiad gael ei ystyried gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**Eitem 6: Newidiadau yng nghyfansoddiad awdurdodau lleol yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol 2000: LGH-06-02 (p.3)**

6.1 Dywedodd y Gweinidog fod 18 o awdurdodau lleol, yn cynnwys Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, wedi cael eu hysbysu bod eu cynigion ar gyfer eu strwythurau newydd yn cyflawni'r gofynion statudol yn llawn. Roedd ffrwyth yr ymgynghori yng Ngheredigion a Rhondda Cynon Taf wedi datgelu cefnogaeth gref i'r Pedwerydd opsiwn, ond roedd yr awdurdodau lleol wedi penderfynu dewis y model arweinydd a chabinet er gwaethaf hynny. I adlewyrchu'r gefnogaeth i'r pedwerydd opsiwn, roedd y naill awdurdod a'r llall wedi

ymrwymo i sicrhau bod cadeiryddiaeth swyddogaethau manylu pwysig yn cael ei rhoi i Aelodau gwrthbleidiau.

6.2 Roeddid yn aros am ragor o wybodaeth oddi wrth Gaerdydd, Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint, ac roedd y wybodaeth honno i'w disgwyl erbyn diwedd Mawrth 2002.

6.3 Codwyd rhywfaint o bryder fod Torfaen wedi cyflwyno cynigion i ddewis model gwahanol i'r un a gâi ei ffafrio yn yr ymgynghoriad. Nododd y Pwyllgor fod gwaith dilynol wedi ei wneud i fwrw goleuni ar y sefyllfa a bod gwybodaeth bellach yn cael ei cheisio am y broses ymgynghori cyn cytuno i'r cynigion.

6.4 Yn yr awdurdodau lleol sy'n weddill, cadarnhaodd y Gweinidog mai materion technegol eu natur yn eu hanfod oedd y pryderon a olygai fod angen rhagor o wybodaeth, yn y rhan fwyaf o achosion.

6.5 Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â'r trefniadau adolygu ar gyfer y strwythurau rheoli gwleidyddol newydd. Nodwyd y câi argymhellion eu gwneud yngln â'r mater adolygu maes o law. Teimlai'r Aelodau y byddai'n rhaid caniatáu cyfnod o sefydlogrwydd i'r awdurdodau lleol yn dilyn y newidiadau sylweddol sy'n cael eu cyflwyno o ganlyniad i'r agenda foderneiddio.

**Eitem 7: Cyflwyniad gan y Gwasanaeth Prawf**

7.1 Croesawodd y Cadeirydd Ian Fox o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru a Carol Moore o Wasanaeth Prawf Gogledd Cymru i'r cyfarfod a gwahoddodd nhw i wneud eu cyflwyniad.

7.2 Amlinellodd Ian Fox ddatblygiad y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr ers sefydlu'r gwasanaeth unedig yn Ebrill 2001. Eglurodd sut y mae'r Gwasanaeth Prawf Rhanbarthol yng Nghymru yn cael ei lywodraethu – roedd hynny'n cynnwys pedwar bwrdd prawf ac roedd aelodau o'r awdurdodau lleol ac ynadon yn gwasanaethu arnynt.

7.3 Roedd rôl y Gwasanaeth Prawf yn cynnwys ymwneud â phob cam o'r system cyfiawnder troseddol ac roedd wedi hwyluso gwaith partneriaeth aml-asiantaethol llwyddiannus wrth roi mesurau ataliol ac ailsefydlu ar waith.

7.4 Tanlinellodd Ian Fox yr angen i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i wireddu cyd-amcanion ac i ymdrin â'r ffactorau sy'n dylanwadu ar droseddu megis iechyd, addysg a digartrefedd. Roedd gan y Gwasanaeth Prawf gyfraniad pwysig i'w wneud tuag at strategaethau Troseddu ac Anhrefn ac wrth wneud hynny byddai'n helpu i ddatblygu cymunedau mwy diogel.

7.5 Ymhelaethodd Carol Moore ar gyfraniad y Gwasanaeth Prawf tuag at ddiogelwch yn y gymuned a gostwng lefel troseddu yng Nghymru. Tynnodd sylw at y gwasanaeth a ddarperir, yn cynnwys cynhyrchu adroddiadau cyn-dedfrydu er mwyn asesu'r risg bosibl i gymunedau, Ailsefydlu yn y Gymuned a Gorchmynion Cosb yn y Gymuned, sy'n cwmpasu prosiectau

amgylcheddol a'r gwaith gyda throseddwyr a ryddhawyd a'r rheini ar drwydded. Yn ogystal, bu'r Gwasanaeth Prawf â rhan yn y gwaith o dywys yn ei blaen y fenter ‘What Works’ a fwriadwyd i ostwng lefel troseddu, mynd i'r afael â throseddwyr peryglus drwy ei waith gyda phanelau amddiffyn aml-asiantaethol a chynorthwyo dioddefwyr yng nghyd-destun rheoli achosion troseddwyr unigol.

7.6 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cytunai'r Pwyllgor ei bod yn hanfodol sicrhau bod anghenion Cymru yn cael eu cymryd i ystyriaeth gan y Swyddfa Gartref wrth i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i Gymru a Lloegr gael ei dywys yn ei flaen. Roedd gan y byrddau prawf cenedlaethol rôl i'w chwarae i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni. Dywedodd Ian Fox fod y Cyfarwyddwr Cenedlaethol wedi cwrdd â'r Gweinidog a'i fod yn awyddus i sicrhau bod materion Cymru yn cael sylw.
- Byddai'n rhaid darparu adnoddau digonol i ymdrin ag amcanion hirdymor wrth ddelio â throseddwyr yng Nghymru ac i gwrdd â'r galwadau ychwanegol sy'n deillio o weithio mewn partneriaeth yn sgîl datganoli. Cytunodd y Gweinidog i gyflwyno achos i'r Swyddfa Gartref o blaid darparu adnoddau ychwanegol i'r Gwasanaeth Prawf yng Nghymru er mwyn caniatáu i'r Gwasanaeth gyfrannu'n llawn at y broses ddatganoli.
- Teimlai'r Aelodau ei bod yn holl-bwysig fod y Swyddfa Gartref yn datblygu a gweithredu cynllun iaith Gymraeg mewn modd amserol. Dywedodd Carol Moore fod ardaloedd prawf unigol eisoes wedi sefydlu cynlluniau. Dywedodd y byddai'n bwysig sicrhau bod cynllun iaith Gymraeg y Swyddfa Gartref yn adlewyrchu'r cynlluniau presennol, sy'n ceisio ymdrin ag anghenion cymunedau lleol.
- Mynegwyd peth siom gan Aelodau yngln â'r dulliau a ddefnyddiwyd i benodi cynrychiolwyr llywodraeth leol i'r pedwar bwrdd prawf yng Nghymru. Teimlid mai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fyddai wedi bod yn y sefyllfa orau i gyd-drefnu enwebiadau'r awdurdodau lleol, ac y byddai hynny wedi dileu'r angen i hysbysebu'r swyddi.
- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â'r angen i amddiffyn plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin. Dywedodd Carol Moore fod Pwyllgorau Amddiffyn Plant Rhanbarthol a Phanelau Amddiffyn y Cyhoedd yn ystyried materion yn ymwneud â cham-drin plant. Roedd y Panelau Amddiffyn y Cyhoedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.
- O ran darparu gwybodaeth i'r rhai sydd wedi dioddef troseddau yn eu herbyn, nodwyd bod gan amryw o asiantaethau rôl i'w chwarae. Gweithiai'r Gwasanaeth Prawf mewn partneriaeth â Chynnal Dioddefwyr gan ddarparu gwybodaeth ar adegau tyngedfennol wrth i'r troseddwyr fynd drwy'r broses Cyfiawnder Troseddol. Teimlai'r Aelodau na fyddai rhai dioddefwyr sydd wedi cael eu cam-drin yn dod i sylw gwasanaethau cynnal swyddogol onid oedd eu hachosion unigol yn mynd i'r llys.
- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â'r cysylltiad rhwng aildroseddu a digartrefedd. Roedd hwn yn fater neilltuol o berthnasol yng Nghymru, yn enwedig yn achos troseddwyr a oedd wedi eu hanfon i garchardai yn Lloegr am nad oes carchar i fenywod yng Nghymru ac am nad oes yna garchar yng Ngogledd Cymru. Nododd yr Aelodau fod yna berthynas waith agos rhwng y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai yng Nghymru. Dylid llunio cynllun rhyddhau ar y cyd a dylid sefydlu mesurau priodol i sicrhau bod llety addas ar gael i

unigolyn unwaith y caiff ei ryddhau.

7.7 Diolchodd y Cadeirydd i Ian Fox a Carol Moore am eu cyflwyniadau ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

**Eitem 8: Adolygiad polisi ar adfywio cymunedol: LGH-06-02 (p.4)**

8.1 Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, NIACE Dysgu Cymru a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru i'r cyfarfod a gwahoddodd nhw i wneud eu cyflwyniadau.

8.2 Amlinellodd Linda Summers o'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) gyfrifoldebau'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Dywedodd fod y CLS yn darparu gwybodaeth, cyngor a chynrychiolaeth yngln â hawliau sifil. Wrth wneud hynny cyfrannai tuag at wrthsefyll allgáu cymdeithasol a rhoi bywyd newydd i gymunedau difreintiedig.

8.3 Esboniodd Linda Summers y cefndir a oedd wedi arwain at ddatblygu'r CLS. Dywedodd mai darniog a digyswllt oedd y gwasanaethau cynghori gynt a bod hynny wedi arwain at fylchau yn y ddarpariaeth a ‘drysfeydd cynghori’.

8.4 Tynnodd sylw at brif nodau a gweledigaeth y CLS a oedd yn cynnwys rhwydwaith o ddarparwyr y mae ansawdd eu gwasanaeth wedi ei achredu, cyllid a gyd-drefnir, gwasanaethau i gymunedau lleol ac asesu anghenion yn effeithiol. Pwysleisiwyd mor bwysig yw mabwysiadu patrwm gweithio drwy bartneriaeth.

8.5 Esboniodd Linda Summers y strwythurau a'r arfau presennol a fyddai'n help i adeiladu'r CLS. Roedd y rhain yn cynnwys datblygu dulliau amgen o gyflenwi gwasanaeth i wneud yn sir ei fod o fewn cyrraedd i gynifer â phosibl o bobl.

8.6 Amlinellodd yr effaith a gafodd datblygiad y CLS ar y gwasanaethau cynghori a chynrychioli cyfreithiol sifil yng Nghymru.

8.7 Rhoddodd Bob Chapman enghreifftiau o astudiaethau achos a ddangosai rai o'r ffyrdd gwahanol a oedd yn peri bod darparwyr cyngor, drwy weithio fel rhan o Bartneriaethau CLS lleol, yn gwneud gwahaniaeth i fywydau unigolion a chymunedau.

8.8 Yn dilyn yr asesiad anghenion cychwynnol a gyflawnwyd ar draws yr awdurdodau lleol i gyd, nododd y Pwyllgor mai'r hyn a ragwelid oedd y byddai partneriaethau CLS lleol yn parhau i nodi anghenion ac i sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth ddigonol ar gael i ddiwallu'r anghenion hyn.

8.9 Cytunodd Linda Summer i ddarparu copi o Gyfeiriadur CLS ar gyfer yr Aelodau.

8.10 Dywedodd Nigel Horrocks mai partneriaeth aml-asiantaethol oedd NIACE Dysgu Cymru ac

mai ei chenhadaeth oedd cefnogi a hyrwyddo datblygiad dysgu gydol oes yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar anghenion dysgwyr sy'n oedolion. Dywedodd fod y bartneriaeth yn cwmpasu 110 o gyrff yn cynnwys awdurdodau lleol, colegau, prifysgolion, mudiadau cymunedol a gwirfoddol ac aelodau unigol ledled Cymru

8.11 Blaenoriaethau allweddol NIACE Dysgu Cymru oedd ei rôl eiriol ar ran dysgwyr ac oedolion sydd â'r lefel isaf o sgiliau; dylanwadu ar bolisi sy'n effeithio ar ddysgwyr sy'n oedolion; a gwneud ymchwil a datblygu a threialu dulliau arloesol o ysgogi oedolion i ddysgu.

8.12 Tynnodd Nigel Horrocks sylw at gryfderau NIACE Dysgu Cymru, yn enwedig hyrwyddo dysgu i oedolion drwy drefnu ymgyrchoedd a hysbysebiadau; cynorthwyo ymarferwyr drwy drefnu datblygiad staff; a darparu gwybodaeth a chyhoeddiadau.

8.13 Amlinellodd ganlyniadau Arolygon NIACE o Gyfranogiad Oedolion mewn Dysgu yn 2001 a'r berthynas rhwng tlodi o ran addysg a thlodi o ran dyheadau.

8.14 Byddai'n rhaid ceisio ffyrdd i ysgogi oedolion o ddosbarthiadau cymdeithasol D ac E yn effeithiol i gymryd rhan mewn dysgu. Teimlid mai'r ffordd orau o gyflawni hyn fyddai drwy weithgaredd datblygu cymunedol. Tanlinellodd Nigel Horrocks bwysigrwydd meincnodau priodol, dangosyddion perfformiad a mesurau perfformiad er mwyn ennyn cyfranogiad y grp sy'n fwyaf amharod i ddysgu. Awgrymodd gronfa benodol, a fyddai'n dwyn ynghyd ystod o ffrydiau cyllido i gefnogi strategaeth i ganolbwyntio ar ddenu'r grp hwn i gymryd rhan.

8.15 Dywedodd Nigel Horrocks fod NIACE Dysgu Cymru wedi trefnu cynhadledd ‘Empowering Communities First’ yn ddiweddar gyda'r nod o roi sylw i'r angen i bobl mewn cymunedau ymdrin â'u partneriaid ar lefel gydradd.

8.16 Gyda chefnogaeth ELWa roedd NIACE Dysgu Cymru yn sefydlu cynlluniau peilot gyda'r nod o ysgogi dysgwyr sy'n oedolion a'u galluogi hwy i gyfrannu at a llunio strategaethau'r dyfodol.

8.17 Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd priodol i annog dysgwyr sy'n oedolion. Roedd yn bwysig cydnabod bod rhai oedolion yn dewis peidio â manteisio ar gyfleoedd dysgu am iddynt gael anhawster i ddysgu yn y gorffennol. Awgrymodd Nigel Horrocks fod ymdrin â dysgu fesul cam yn ffordd o ddenu pobl i fanteisio ar gyfleoedd addysg i oedolion.

8.18 Dywedodd Howard John o Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru fod datblygu Rhwydwaith Datblygu Cymunedol y Cymdeithasau Tai yn amlygu'r newid pwyslais i gymdeithasau tai o'r gweithgaredd craidd o ddarparu tai i agwedd fwy cyfannol tuag at greu cymunedau.

8.19 Dywedodd fod mwyafrif y cymdeithasau tai yn cyflogi gweithwyr datblygu cymunedol ar hyn o bryd. Teimlid y gallai'r Rhwydwaith wneud cyfraniad gwerthfawr i'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a byddai'n darparu sianel effeithiol a fyddai'n fodd i gyrraedd cymunedau. Roedd mwyafrif

aelodau'r Rhwydwaith wrthi'n ymwneud â Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ac yn gweithio i sefydlu perthnasau cryf â'r awdurdodau lleol wrth dywys y rhaglen yn ei blaen. Pwysleisiodd yr angen i fwrw iddi i weithio gyda'r Rhwydwaith Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

8.20 Tynnodd Howard John sylw at yr angen i sefydlu datblygu cymunedol fel swyddogaeth graidd i gymdeithasau tai. Byddai hyn yn golygu bod yn rhaid parhau i fuddsoddi yn y broses ddatblygu.

8.21 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Awgrymwyd bod llwyddiant cynlluniau datblygu cymunedol yn dibynnu ar bartneriaethau gwirioneddol, sy'n golygu rhywbeth. Roedd yn hanfodol fod awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn bwrw iddi i weithio'n effeithiol drwy bartneriaeth er mwyn tywys adfywio cymunedol yn ei flaen. Dywedodd Howard John fod y Rhwydwaith yn cydnabod yr angen i sefydlu perthynas dda gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Roedd y Rhwydwaith yn cydnabod rôl awdurdodau lleol yn gweinyddu cyllid ar gyfer rhaglenni a chynlluniau datblygu cymunedol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion teimlid mai cyrff datblygu cymunedol fyddai yn y sefyllfa orau i weinyddu'r cyllid lle'r oedd gwaith llwyddiannus wedi ei wneud drwy'r broses ddatblygu i feithrin gallu.
- Roedd yna rôl bendant i gymdeithasau tai i rymuso pobl mewn cymunedau. Roedd hyn wedi cael ei sefydlu'n dda drwy waith y Cyfamodau Cyfranogiad Tenantiaid, a fu'n help i ddatblygu ymddiriedaeth rhwng cymunedau lleol a chymdeithasau tai.
- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln ag anfanteision diffinio cymunedau yn nhermau ardal ddaearyddol. Awgrymodd y Rhwydwaith ei bod yn bwysig caniatáu i gymunedau bennu eu ffiniau eu hunain yn hytrach na defnyddio ffiniau wardiau llywodraeth leol neu ffiniau siroedd. Fodd bynnag, nodwyd bod y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf wedi ei chynllunio fel ei bod yn cwmpasu'r materion hyn. Dewiswyd y diffiniadau presennol mewn cydnabyddiaeth o'r ffaith fod yn rhaid diffinio cymunedau drwy ddefnyddio data ystadegol y gellid ei ddilysu. Yr oeddid yn derbyn y byddai yna bob amser eithriadau mewn rhai ardaloedd.

8.22 Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, NIACE Dysgu Cymru a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru am wneud eu cyflwyniadau ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

**Eitem 9: Cofnodion cyfarfod 6 Mawrth: LGH-05-02 (min)**

9.1 Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod 6 Mawrth.

**CRYNODEB PWYNTIAU GWEITHREDU**

1 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar y nifer o gynghorwyr a oedd wedi eu gwahardd am nad oeddynt wedi llofnodi'r cod ymddygiad.

2 Cytunodd y Gweinidog y byddai'r swyddogion yn darparu cyngor i gynghorau cymuned ar y cod ymddygiad enghreifftiol i Aelodau ac y byddai'n hysbysu'r Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer hynny.

3 Cytunodd y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law ar gynigion i dywys yr adroddiad 'Hidden in Plain Sight: Homelessness among Lesbian and Gay Youth' yn ei flaen, ar ôl i'r Dirprwy Weinidog ystyried ei oblygiadau i Gymru.

4 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar Gylch Ceisiadau 2002-03 yr Awdurdodau Lleol am Arian ac Eithrio Arian Cyfatebol o'r Gronfa Adfywio Leol, gan gynnwys manylion y dyraniad o £9.267 miliwn a oedd eisoes wedi ei rwymo ac ansawdd y ceisiadau a ddaeth i law.

5 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar Gylch Ceisiadau'r Sector Gymunedol a Gwirfoddol am Arian o'r Gronfa Adfywio Leol. Croesawai'r Pwyllgor y ddarpariaeth gyllido a fyddai o fudd i gymunedau difreintiedig mewn ardaloedd nad ydynt yn gymwys i gael Cyllid Strwythurol oddi wrth yr UE.

6 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o fanylion am y Swyddfeydd Post sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Cyfalaf Cychwyn ac i gynnwys manylion am weithrediad y cynllun a'r camau a gymerwyd i roi cyhoeddusrwydd iddo.

7 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar yr Ardal Blismona Beilot Flaenoriaethol i Gymru, a oedd wedi deillio o'r Papur Gwyn ar ddiwygio'r heddlu. Roedd Gorllewin y Rhyl yng Ngogledd Cymru wedi ei ddewis fel un o bum ardal yn y DU i gymryd rhan yn y prosiect peilot.